

## **Gwybodaeth am eich apwyntiad i gael ail asesiad clyw**

### **Gwasanaeth Awdioleg Gwent**

#### **Cyflwyniad**

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu'r gofal y byddwch chi'n ei gael pan fyddwch chi'n mynychu'r Adran Awdioleg i gael eich ail asesiad clyw.

Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn cydsynio i gael un o'r triniaethau hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch y gallwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi'n dymuno parhau gyda'r profion.

Rydyn ni'n eich annog yn gryf i ddod â ffrind neu aelod o'r teulu i bob apwyntiad. Cofiwch ddweud wrthym dros y ffôn neu pan fyddwch chi'n cyrraedd y clinig os hoffech chi gael eich gweld ar eich pen eich hun.

Os byddwch chi angen unrhyw gymorth i gyfathrebu, cofiwch ffonio'r adran gyda manylion yr iaith yr hoffech gyfathrebu ynddi a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu hyn ar eich cyfer. Gallwch gysylltu trwy ffôn, neges destun, neu e-bost. Mae'r manylion ar sut i gysylltu wedi ei gynnwys yn eich llythyr apwyntiad.

Bydd eich apwyntiad gydag Awdiolegydd cwbl gymwysedig sydd â phrofiad mewn cymryd hanes meddygol i'w wneud â'ch clyw, gosod cymhorthion clyw i oedolion, ac mewn cynghori ar eu defnydd a'u budd.

#### **Yn ystod eich apwyntiad**

Bydd yr awdiolegydd yn gofyn am eich hanes er mwyn deall y problemau rydych chi'n eu hwynebu gyda'ch clyw. Mae'n bwysig eich bod yn egluro'r problemau gyda'ch cymorth clyw presennol fel bod yr Awdiolegydd yn gallu teilwra'r apwyntiad i gyflawni eich anghenion. Byddwn yn gofyn i chi am fanylion eich anawsterau clyw a pha mor hir rydych chi wedi cael yr anawsterau hyn. Hefyd, bydd yr Awdiolegydd yn trafod y sefyllfaoedd lle mae eich clyw yn achosi problem.

Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu sut i'ch helpu i wneud defnydd o'ch cymorth clyw ac i drafod yr hyn rydych chi ei angen gan y cymorth clyw. Bydd yr Awdiolegydd yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth benderfynu a ydych angen uwchraddio eich cymorth presennol ac a ddylid gosod ail un.

#### **Profion clyw**

Bydd yr Awdiolegydd yn cynnal prawf clyw. Gofynnir i chi wrando ar synau drwy glustffonau ac ymateb pan fyddwch chi'n eu clywed. Bydd yr Awdiolegydd wedyn yn gallu asesu'r synau tawelaf y gallwch ei glywed.

Mae'n bosibl y byddwch chi angen prawf pellach i wirio symudiad eich drwm clust. Os felly, bydd darn bychan yn cael ei roi ymhob clust yn ei dro ac yna bydd yn chwythu i mewn i'ch clust. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anghysur ond bydd eich clust yn teimlo'n llawn tra bydd yn cynnal y prawf.

Weithiau, mae'n bosibl y bydd yr Awdiolegydd yn teimlo y dylid eich atgyfeirio at Feddyg Clust, Trwyn a Gwddf a bydd yn egluro i chi pam bod hyn yn angenrheidiol.

Cofiwch, rydyn ni'n cymryd yn ganiataol eich bod yn cydsynio i gael y profion hyn pan fyddwch chi'n mynychu'r apwyntiad. Cofiwch ddweud yn ystod yr apwyntiad os na fyddwch chi am barhau gyda'r profion.

### **Canlyniadau'r profion hyn**

Os yw eich lefelau clyw wedi newid, bydd yr Awdiolegydd yn rhaglennu rhaglen newydd ar gyfer eich diffyg clyw drwy ddefnyddio gwifren i mewn yn y cymorth clyw sydd wedi'i chysylltu i'r cyfrifiadur.

Ar sail y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i'r Awdiolegydd a chanlyniadau eich prawf clyw, byddwn yn trafod sut bydd y cymorth clyw newydd yn eich helpu. Bydd hyn wedyn yn cael ei nodi i ffurfio rhan o'ch Cynllun Rheoli Personol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu sut bydd y cymorth clyw yn eich helpu yn eich bywyd bob dydd.

### **Profi'r cymorth clyw**

Byddwn yn cynnal profion i sicrhau bod y cymorth clyw'n cael ei osod yn gywir ar gyfer eich diffyg clyw a siâp a maint eich clust chi. Yn ystod y profion hyn byddwch chi'n gwrandao ar synau'n dod drwy seinydd ar y ddesg. Byddwn yn dechrau drwy osod tiwb bychan yn llwybr eich clust. Yna, byddwn yn cynnal y prawf gyda'r tiwb a'r darn clust yn eich clust a'r cymorth clyw wedi'i gysylltu. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r synau'n eithaf uchel ond ni ddylai achosi unrhyw anghysur i chi. Bydd yr Awdiolegydd wedyn yn defnyddio'r profion hyn i wneud mân addasiadau i'r cymorth clyw a sicrhau ei fod wedi'i osod yn gywir i chi.

### **Gosod rheolyddion y cymorth clyw**

Ar sail y wybodaeth roeddech chi'n ei thrafod ar ddechrau'r apwyntiad, bydd yr Awdiolegydd yn penderfynu pa raglenni y byddwch chi eu hangen ar y cymorth clyw er mwyn cael y budd mwyaf ohono.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid gwneud mowld clust newydd ac felly bydd yn rhaid cael argraffiad o un neu'r ddwy glust. Bydd yr Awdiolegydd yn rhoi sbwng bychan yn llwybr eich clust ac yna deunydd meddal fydd yn setio o fewn ychydig funudau. Yna, bydd yn tynnu deunydd yr argraffiad a'r sbwng o'r glust. Ni ddylai'r driniaeth hon achosi unrhyw anghysur ond bydd eich clust yn teimlo'n llawn tra bod deunydd yr argraffiad yn llwybr y glust. Byddan nhw'n defnyddio'r argraffiad hwn i wneud mowld clust sy'n bersonol i'ch clust chi.

### **Cymorth a chyngor pellach**

Mae'n bwysig cofio bod pob person yn unigolyn gydag anghenion gwahanol. Bydd yr Awdiolegydd yn trafod sut gallwch chi addasu i'r cymorth clyw newydd. Mae'n normal i'r cymorth clyw swnio'n rhyfedd i ddechrau. Gall gymryd misoedd lawer i chi ddod yn gyfarwydd â sŵn cymorth clyw newydd. Byddwn yn trafod hyn gyda chi yn fwy manwl ac ar sail eich cynllun rheoli personol, byddwn yn egluro'r cymorth clyw newydd ac yn eich helpu.

**Yn ystod yr apwyntiad, os bydd unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall yn iawn, cofiwch ofyn ar**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English".**